
# LLANDYGWNNING

Hyd: **3.6km – 2.25m**





**Cyfarwyddiadau**

Cychwyn gyferbyn â Swyddfa'r Post, Botwnnog (SH 260 310) a cherdded i lawr y llwybr tua'r de i gyfeiriad Tregrwyn.

- Dod allan i'r ffordd (Botwnnog i Rhiw), troi i'r chwith a thros Bont Rhyd Goch sy'n croesi afon Soch .
- Gyferbyn â Chapel Rhyd-bach (SH 261308) mae giât ar ben clawdd. Mynd trwy honno a chroesi'r cae at bompren. Mynd dros honno a chroesi dau gae arall nesa dod i gyffiniau fferm Trewen.
- Wedi mynd dros gamfa i'r chwith o iard y fferm mae angen cerdded i'r dde ar hyd ffordd drol.
- Dal i'r chwith a thros gamfa a phompren (SH 261303) ac ymlaen tua'r de lle ceir camfa arall.
- Mynd dros y gamfa ac i'r chwith (Gwelir camfa ar y dde – anwybyddu) ac i lawr y cae a thros bompren.
- Daw'r llwybr allan gyferbyn ag Eglwys Llandygwnning (SH 266300). Troi i'r chwith ar y ffordd ac ymlaen at gyffordd gyda ffordd Pwllheli - Aberdaron (B4413).
- Troi i'r chwith a dilyn y briffordd heibior Feddygfa a Chapel Rhyd-bach ac yn ôl i bentref Botwnnog.

**Pethau i'w gweld ar y daith:**



### 1 Afon Soch

Mae'r afon Soch yn tarddu ar lethrau Mynydd Cefnamwlch ar yn llifo trwy Sarn Mellteyrn, Botwnnog ac ymlaen trwy Forfa Neigwl ac i'w haber yn Abersoch. Dywedire yr arferai unwaith lifo i'r mor yn Mhorth Neigwl.

Credir fod ei henw, fel amryw o fannau yn Llŷn yn Wyddelig, y dair 'socc' am 'hwch. Sylwer fod amryw o enwau afonydd yn dwyn enwau anifeiliaid sy'n tyrchu. Gwêl 'Dictionary of the Place-names of Wales' Owen a Morgan.




### 2 Botwnnog

Mae'n debyg mai cyfeirio mae'r enw Botwnnog at bot (cartref neu eglwys) Tywynnog (nawddsant gwreiddiol y plwyf)



### 3 Capel Rhyd Bach

Rhoddwyd tir i adeiladu'r capel cyntaf gan Lewis Williams, Gwag y Noe, Llangian tua 1783. Ef hefyd roddod dir ar gyfer Capel Newydd, Nanhoron. Adeilad bychan o bridd gyda tho gwellt arno ydoedd. Codwyd un gwell gyda llofft ym mhob talcen iddo ym 1813, ac ym 1847 agorwyd capel newydd eto.

Ond ym 1877-8 codwyd capel newydd yn y Nant a chodwyd un ar yr un cynllun yn Rhyd-bach ymhen deng mlynedd. Dathlodd ei ganmlwyddiant ym 1989.



### 4 Eglwys Llandygwnning

Cysylltir enw nawddsant yr eglwys, Gwynnin a Cynwyl (Penrhos) â thywysog Celtaidd o'r enw Coel Godebog. Cynlluniwyd yr eglwys hon ac eglwys newydd Aberdaron gan y pensaer, John Welch. Mae ei thŵr unigryw ar ffurf bocs pupur yn anghyffredin er yn debyg i dŵr eglwys Botwnnog. Ar ochr y tŵr ceir cloc haul.

Yn ddiddorol iawn 'roedd un Griffith Mathias yn flaenor yng nghapel Rhyd-bach tra ar yr un pryd yn glochydd Llandygwnning

Mae adfeilion Plas Llandygwnning i'r dwyrain o'r eglwys. Dyma gartref teulu Wynne. Caewyd yr eglwys ers blynyddoedd, ond bellach cymerir gofal ohoni gan bwyllgor o drigolion lleol.



## 5 Faerdref

Enw sy'n dyddio'n ôl i'r blynyddoedd cynnar ac yn ein hatgoffa o'r cyfnod pan oedd i Neigwl statws uchel yng nghwmwd Dinllaen.



## 6 Neigwl

Rhannwyd Llŷn yn dri chwmwd yn yr hen amser. Dinllaen oedd i'r gogledd, yn ymestyn o'r Eifl i Dudweiliog ac wedi derbyn ei enw o'r hen gaer arfordirol - Dinllaen. Rhwng yr afon Erch a Thrwyn Cilan 'roedd Afloegion (Cafflogion) gyda Deneio fel ei bencadlys. Yna 'roedd Cymydmaen, wedi derbyn ei enw o'r Maen Melyn yn Uwchmynydd.

Prif ganolfan Cymydymaen oedd Neigwl; y fan roddodd ei enw i Borth Neigwl. Cysylltir yr enw hefyd â Nigel de Lohareyn, cyfaill i'r Tywysog Du. Yn 1355 cyflwynodd brenin Lloegr Bwllheli i'w gyfaill am ei wasanaeth a rhoi iddi statws bwrdeistref.